# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 20fed o Dachwedd 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng R Gallie, H James, P Walton, W Evans, J Phillips, D Lewis a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**: Cyng G Evans a J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 18fed o Fedi a derbyniwyd nhw yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**

Mae mainc newydd wedi ei roddi mewn lle yn Heol Shôn ac mae'r fainc yng Nghwmfelin Mynach wedi ei ailgyweirio.

Mae gwybodaeth yn cael ei gasglu i wneud cais am grant i adfer y cofgolofn rhyfel yn Llanwinio.

Cynhelir y cinio blynyddol yn yr Hen Ysgol Fwrdd, San Cler ar y 19eg o Ionawr 2019.

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD:**

Cyflwynodd y clerc i'r Cyngor yr adroddiad blynyddol a oedd wedi ei gwblhau gan yr archwilydd allanol. Nid oedd dim materion oedd eisiau ymateb iddo ond fe dynnwyd sylw y Cyngor at y swm o arian oedd ganddynt wrth gefn a'r eisiau i gael llythyr ymrwymiad oddi wrth yr archwilydd mewnol. Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad.

**CYTUNDEB PORI:**

Trafodwyd y cytundeb pori newydd ac fe awgrymwyd fan welliannau. Penderfynwyd danfon copi i bob tenant ynghyd a map yn dangos yr ardal roeddent yn rhentu.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd arolwg chwarae oddi wrth CSC. Cytunodd Cyng R Gallie i'w gwblhau.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Swyddog Diogelu Data ynglyn a adnewyddu contract y SDD. Gohiriwyd unrhyw benderfyniad tan y cyfarfod nesaf.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| AGR/Twrbin gwynt Plasparcau – lles cymunedol | £858.29 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – Trydan neuadd gymuned 25/7/18 – 22/10/18 | £31.02 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Cyfrif Cyfredol – £4936.13

Cyfrif Busnes - £13473.43

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**

Codwyd nifer o faterion cynnal a chadw at sylw adran Briffyrdd CSC.

Cwmbach- ceuffos ar gau a symud llaid o dan y bont.

Cwmfelin Mynach – tyllau'r bont wedi blocio efo darnau o goed, ffens wedi cwympo ar y tro islaw Esgerddeugoed a rwbel ar y tro gwaelod.

Trafodwyd dyfodol cae chwarae Blaenwaun a'r posibilrwydd o gymryd drosodd y prydles oddi wrth y Gymdeithas Gymunedol a chynorthwyo efo prynu'r cae.

Trafodwyd prynu diffibriliwr i'r Neuadd Gymuned hefyd.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd y cyfarfod ar gau.

**Fe gynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 15fed o Ionawr 2019 yn Neuadd Gymuned Llanwinio am 8.00yh.**